

**Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i baratoi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg  
1993**



## Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i baratoi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

### Cyflwyniad

1. O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf), mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ddarparu cynllun yn gosod sut y bydd yn cynnig y gwasanaethau hynny yn Gymraeg.
2. Mae gwybodaeth bellach am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg i'w chael yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ([www.byig-wlb.org.uk](http://www.byig-wlb.org.uk)).
3. Cafodd y cynllun hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar 23 Medi 2009



### Cynllun yr CC

4. Mae'r Comisiwn Cystadleuaeth (CC) wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
5. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd yr CC yn gweithredu'r egwyddor honno wrth gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
6. Wrth lunio'r mesurau sydd wedi'u nodi yn y cynllun, mae'r CC wedi cadw mewn cof yr hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, gan ddilyn yr egwyddorion a gafodd eu sefydlu gan y Ddeddf.
7. Yn y cynllun hwn, ystyr y term "cyhoedd" yw unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei grynsyth, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys cyrrff gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o fewn ystyr y term 'cyhoeddus'. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys pobl sy'n gweithredu wrth gynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan ystyr y term 'cyhoeddus' wrth gyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

### Rôl yr CC

8. Mae'r CC yn gorff cyhoeddus anadrannol annibynnol sydd, gyda'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT) ac yn agored i apelïadau drwy'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, yn gweithredu cyfundrefn gystadleuaeth gyffredinol y DU. Rôl yr CC yw cynnal ymchwiliadau trwyadl i drefniadau uno, marchnadoedd a rheoleiddiad y prif ddiwydiannau sydd wedi'u rheoleiddio (yn cynnwys cyfleustodau, gwasanaethau post, rheilffyrdd, meysydd awyr, rheolaeth trafndiaeth awyr a gwasanaethau ariannol).
9. Ymgymerir â'n holl waith ymchwilio yn sgil atgyfeirio i'r CC gan awdurdod arall: ran amlaf, yr OFT (a fydd yn atgyfeirio ym maes uniadau a marchnadoedd) neu un o'r rheoleiddwyr sector (a all atgyfeirio yng nghyswllt marchnadoedd o dan eu hawdurdodaeth sector neu atgyfeirio'n rheoleiddiol gyda golwg ar reolaeth brisiau ac addasiadau trwydded eraill). Bydd yr CC hefyd yn gwrandao apelïadau yng nghyswllt

addasiadau i'r codau sy'n cwmpasu'r diwydiant ynni. Gall atgyfeiriadau ddeillio hefyd o'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau (BIS)<sup>1</sup>.

10. Lle mae atgyfeiriadau uno yn y cwestiwn, mae'n ofynnol fel arfer i'r CC benderfynu a fydd yr uno yn arwain, neu a yw'n debygol o arwain, at leihau'r gystadleuaeth yn sylweddol. Mewn ymchwiliadau marchnad, mae'n rhaid i'r CC benderfynu a yw unrhyw nodwedd, neu gyfuniad o nodweddion, mewn marchnad yn rhwystro neu'n gwyrddroi'r cystadlu, gan greu felly effaith andwyol ar gystadleuaeth. Yn y naill achos neu'r llall, mae'n rhaid i'r CC benderfynu pa gamau, os o gwbl, i'w cymryd i unioni unrhyw broblemau a wêl. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd ymryrryd yn yr ystyriaeth a roir i uniad neu yn yr ymchwiliadau i farchnad lle cred y gallai hynny godi un neu ragor o ffactorau o ran buddiant cyhoeddus sydd wedi'u pennu'n statudol. Gydag atgyfeirio rheoleiddiol, caiff ein rôl ei llywio gan y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n benodol i'r sector. Bydd raid inni benderfynu'n arferol a yw rhyw agwedd ar y gyfundrefn yn gweithredu er niwed i'r buddiant cyhoeddus ac a gâi hynny ei unioni drwy addasu'r drwydded, neu bydd angen inni benderfynu'r lefel briodol o reolaeth ar brisiau.
11. Nid awdurdod i ddefnyddwyr mo'r CC – dyma rôl yr OFT. Bydd ein cyfathrebu'n canolbwyntio fel arfer ar y gwahanol ochrau sy'n cael eu harchwilio. Mae hyn yn golygu'r gymuned fusnes; diwydiannau wedi'u rheoleiddio, ynghyd â'u rheoleiddwyr; ymgynghorwyr proffesiynol megis cyfreithwyr ac economegwyr; adrannau'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill; a grwpiau buddiant arbennig megis cymdeithasau proffesiynol. Anaml y bydd ein cyfathrebu'n canolbwyntio ar y cyhoedd.
12. Mae pencadlys yr CC yn Llundain. Cyfeiriad ein gwefan yw [www.competition-commission.org.uk](http://www.competition-commission.org.uk) ac mae'n manylion cysylltu i'w gweld ar ddiwedd y cynllun hwn.

### **Cwmpas y cynllun**

13. Bydd cynllun yr CC yn gymwys i holl swyddogaethau pencadlys yr CC.

### **Polisiau, gwasanaethau a mentrau**

14. Bydd ein polisiau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg ac yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i arfer yr iaith fel rhan o'u bywyd beunyddiol lle bynnag y bo hynny'n briodol.
15. Wrth gyfrannu at ddatblygiad neu wireddiad polisiau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd wedi'n harwain gan gyrff eraill, fe wnawn hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

### **Gwireddu gwasanaethau**

16. Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol – ac fe rown wybod i'r cyhoedd pa bryd y maent gael. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gyrchu'n gwasanaethau.

---

<sup>1</sup> BIS yw'r adran sy'n nodd i'r CC.

## **Safonau ansawdd**

17. Mae'r CC yn ymrwymo i wireddu gwasanaethau o ansawdd yr un mor uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg ac o fewn yr un amser.

## **Delio â'r cyhoedd Cymraeg**

### ***Gohebiaeth***

18. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ateb Cymraeg, os oes angen ateb. Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb yr un fath ag ar gyfer ateb llythyrau Saesneg, sef 20 diwrnod gwaith i gais o dan y drefn Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a 15 diwrnod i ohebiaeth arall.
19. Ein harfer gyffredin fydd cychwyn gohebiaeth yn Gymraeg â'r rheiny y gwyddys ei bod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg.
20. Lle bo gohebiaeth yn ymwneud ag ymchwiliad gan yr CC a/neu unrhyw weithrediadau apêl, gwneir y penderfyniad i gychwyn ac ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ôl disgrisiwn ein rheolwyr, gan gymryd i ystyriaeth y pwnc dan sylw a'r terfynau amser statudol a fynnir gan y proses ymchwilio.
21. Bydd yr un polisiau'n gymwys i ohebiaeth e-bost yn ogystal ag i fathau eraill o ohebiaeth ysgrifenedig.
22. Os oes raid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer gyffredin fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd.
23. Bydd eitemau a gaiff eu hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog eu hunain, lle bônt ar gael. Bydd eitemau a gaiff eu hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg eu hunain neu'n ddwyieithog, lle bônt ar gael.

### ***Cyfathrebu dros y ffôn***

24. Gan fod pencadlys yr CC yn Llundain, ni fyddai'n ymarferol inni gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg.

### ***Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru***

25. Bydd y CC yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru yn cael cyfrannu yn Gymraeg a bod croeso iddynt wneud. Bydd gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoedduswydd i ddigwyddiad yng Nghymru yn gwahodd y rhai sydd am siarad yn Gymraeg i roi gwybod am hynny i drefnydd y digwyddiad o leiaf bythefnos ymlaen llaw fel y gellir trefnu cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd.
26. Rhoddwyd gwybod i'n staff am yr ymrwymiad hwn yng nghanllaw'r CC i'w Gynllun Iaith Gymraeg.

### ***Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd y tu allan i Gymru***

27. Oherwydd ein lleoliad, a'r ffaith bod y mwyafrif o'n cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Llundain, ni fyddai'n ymarferol inni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## ***Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru***

28. Wrth ymgymryd ag arolwg o grŵp o fusnesau neu grŵp o ddefnyddwyr sy'n cynnwys nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg, byddwn yn gweinyddu'r arolwg yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## ***Hysbysebu***

29. Bydd unrhyw hysbysebion a roir mewn papurau newydd Saesneg a gaiff eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (a hynny yr un pryd ac yn gydradd o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd). Hysbysebion Cymraeg yn unig a gaiff eu rhoi mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

## ***Deunydd cyhoeddi ac argraffu wedi'i anelu at y cyhoedd yng Nghymru***

30. Lle bo cyhoeddiad wedi'i anelu at y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru, trefnir iddo fod ar gael yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
31. Lle bo'r deunydd o ddiddordeb i'r gymuned fusnes yng Nghymru, yn hytrach na'r cyhoedd yn gyffredinol, trefnir iddo fod ar gael yn Gymraeg yn gyfan gwbl, yn rhannol neu fel crynodeb, yn ôl disgrisiwn ein rheolwyr, o gymryd i ystyriaeth gwmpas tebygol y diddordeb yn y deunydd neilltuol ac a yw fframwaith y deunydd ei hun yn ymgynnig i'w gynhyrchu naill ai'n rhannol yn Gymraeg neu fel crynodeb Cymraeg.
32. Lle bo'r deunydd wedi'i anelu at gynulleidfa gyfyngedig ac arbenigol yng Nghymru, byddwn yn ystyried yr angen am drefnu iddo fod ar gael o achos i achos, gan gymryd i ystyriaeth y pwnc a natur y gynulleidfa.
33. Lle trefnir i fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddeunydd cyhoeddedig fod ar gael ar wahân, bydd pob un yn dangos neges ar frig tudalen cynta'r ddogfen yn cadarnhau bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall. Bydd y ddau fersiwn yr un mor hygyrch i'r cyhoedd.
34. Lle codir tâl am gyhoeddiad, ni fydd pris y fersiwn Cymraeg yn fwy na phris y fersiwn Saesneg.

## ***Tystiolaeth a gaiff ei chyflwyno i ymchwiliadau'r CC***

35. Lle cyflwynir tystiolaeth Gymraeg i ymchwiliadau'r CC, a bod penderfyniad yn cael ei gymryd i gyhoeddi'r dystiolaeth honno ar wefan yr CC, trefnir iddi fod ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

## ***Hysbysiadau i'r Wasg***

36. Lle mae'r terfynau amser yn caniatáu, trefnir i hysbysiadau i'r Wasg sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd Cymreig fod ar gael yn Gymraeg. Bydd hysbysiadau i'r Wasg a ddsberthir yn benodol ymhlith y Wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

## ***Gwefannau***

37. Bydd ein gwefan yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

38. Byddwn yn paratoi rhaglen i'w chytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn gosod sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan ymhen amser.
39. Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu'n gwefannau presennol, byddwn yn cymryd i ystyriaeth ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghyswllt dylunwaith gwefannau.

### ***Ffurflenni a deunydd cysylltiedig***

40. Ein harfer gyffredin fydd sicrhau y bydd ffurflenni a deunydd cysylltiedig sydd at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
41. Trefnir i ffurflenni a deunydd cysylltiedig i'w defnyddio gan gyrff neu unigolion sy'n cymryd rhan yn ymchwiliadau'r CC a/neu unrhyw weithrediadau apêl fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn ôl disgrisiwn ein rheolwyr, o gymryd i ystyriaeth y pwnc dan sylw a'r terfynau amser statudol a osodir gan y proses ymchwilio.
42. Bydd ffurflenni a deunydd cysylltiedig ar gyfer ymgeiswyr am swyddi yn ddwyieithog mewn perthynas â phob swydd lle caiff yr hysbyseb recriwtio ei rhoi mewn papurau newydd a ddsberthir yn bennaf neu'n llwyr yng Nghymru; neu lle mae cymwysterau angenrheidiol y swydd yn dweud bod rhuglder yn y Gymraeg yn fedr sydd yn ddymunol neu'n hanfodol.
43. Bydd y darpariaethau uchod yn gymwys i'r ffurflenni rhyngweithiol a gaiff eu cyhoeddi ar ein gwefan, lle bo hynny'n briodol.

### ***Recriwtio***

44. Ar gyfer unrhyw swyddi sy'n mynnu cyswllt eang a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn fedr sy'n ddymunol neu'n hanfodol – ac fe nodir hyn yn y cymwysterau angenrheidiol a'r hysbysebion ar gyfer swyddi.

### ***Hunaniaeth gorfforaethol***

45. Lle caiff dogfennau eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg, bydd enw'r Comisiwn Cystadleuaeth yn ymddangos yn Gymraeg ar y fersiwn Cymraeg.

### ***Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a recriwtio staff***

46. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a roir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a gaiff eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg.
47. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gydradd o ran diwyg, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un ai y cânt eu cynhyrchu fel un fersiwn dwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
48. Yn y cyfryngau Saesneg, gall swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol gael eu hysbysebu yn Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

49. Gall hysbysiadau recriwtio a roir mewn cylchgronau Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) a gaiff eu dosbarthu ledled y DU fod yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol – os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog neu yn Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

### ***Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu***

50. Cymerir i ystyriaeth yr angen am weithredu yn unol â'r cynllun hwn wrth inni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

### **Gweithredu'r cynllun**

#### ***Trefniadau gweinyddol***

51. Cafodd ymrwymadau a threfniadau'r cynllun hwn eu cymeradwyo gan Brif Weithredydd yr CC.
52. Bydd yr CC yn sicrhau bod pawb o'i staff yn ymwybodol o'r cynllun a'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf drwy ddsbarthu canllawiau a chyfarwyddyd ymhlith y staff.
53. Bydd staff yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
54. Bydd yr CC yn defnyddio cyfieithwyr neu gyfieithwyr-ar-y-pryd sydd â chymwysterau priodol i helpu i wireddu'r cynllun hwn.

#### ***Gwasanaethau a gaiff eu rhoi i'r cyhoedd yng Nghymru gan eraill ar ran yr CC***

55. Mae'r CC yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a gaiff eu gwneud a trydydd partïon gyda golwg ar roi gwasanaethau i'r cyhoedd Cymreig, yn gyson ag amodau'r cynllun hwn. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu contractio allan.
56. Lle bo hynny'n berthnasol, bydd y gofynion gyda golwg ar yr iaith Gymraeg yn rhan o'r dogfennau tendro a'r contractau, y cytundebau neu'r trefniadau canlyniadol sy'n codi. Os bydd gwasanaethau o'r fath yn cynnwys darparu canolfan ffonio neu linell gymorth, disgwylir i gynigwyr allu trin ymholiadau gan siaradwyr Cymraeg.
57. Cyfrifoldeb y rheolwr perthnasol fydd monitro gweithrediad materion yn dod o dan y Ddeddf yng nghyswllt y cynllun hwn gan gcontractwyr a phartïon eraill.

#### ***Monitro'r cynllun***

58. Gofynnir i staff restru pob cyswllt a wneir yn Gymraeg a rhoi gwybod am y rhain i Reolwr y Ganolfan Gwybodaeth.
59. Gofynnir i staff roi gwybod i Reolwr y Ganolfan Gwybodaeth am bob cwyn yng nghyswllt y cynllun hwn neu am ddefnydd yr CC o'r iaith Gymraeg yn gyffredinol.
60. Bydd Rheolwr y Ganolfan Gwybodaeth yn llunio adroddiad cydymffurfio blynyddol i gynnwys:

(a) nifer yr enghreifftiau o gyfathrebu yn Gymraeg;

(b) ein cyraeddiadau yn ôl amserlen y tabl isod; ac

(c) unrhyw gwynion yng nghyswllt y cynllun neu awgrymiadau o ran gwella.

Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Prif Weithredwr i gael ei gymeradwyo. Byddwn yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am y cynnydd a wnaethom wrth wireddu'r cynllun hwn, pan ofynnant am un.

### ***Adolygu a diwygio'r cynllun***

61. Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym. Gallwn hefyd adolygu neu ddiwygio'r cynllun hwn yn y cyfamser oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### ***Yr amserlen ar gyfer gweithredu'r cynllun***

62. Daw'r cynllun i rym yn ffurfiol o fewn yr CC o fewn dau fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae eisiau'r cyfnod gweithredu o ddau fis er mwyn ei gwneud yn bosib paratoi canllawiau a chyfarwyddyd mewnol a'u lledaenu ymhlith staff yr CC. Bydd mesurau sydd heb ysbaid rhagarweiniol, megis y gofyniad am ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg, yn dod i rym yn syth.
63. Gall cyhoeddiadau, ymgyrchoedd hysbysebu neu drefniadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus sydd ar y gweill pan ddaw'r cynllun i rym, ac a fyddai fel arall yn bodloni'r meini prawf o ran anghenion y cyhoedd Cymraeg, gael eu cynhyrchu neu eu cynnal yn Saesneg yn unig.

### ***Awgrymiadau ar gyfer gwella***

64. Dylai cwynion yng nghyswllt y cynllun hwn neu awgrymiadau ar gyfer gwella gael eu cyfeirio at:

Linda Fisher  
Information Centre Manager  
Competition Commission  
Victoria House  
Southampton Row  
Llundain WC1B 4AD

Tel: 020 7271 0240

Ffacs: 020 7271 0367

E-bost: [info@cc.gsi.gov.uk](mailto:info@cc.gsi.gov.uk).

Byddwn yn cydweithredu â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatrys cwynion — ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gaiff eu cynnal o dan adran 17 o'r Ddeddf.

## Y prif dargedau ar gyfer gwireddu'r cynllun

Targed

Dyddiad cwblhau

## Gohebiaeth

Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ateb Cymraeg, os oes angen ateb. Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb yr un fath ag ar gyfer ateb llythyrau Saesneg, sef 20 diwrnod gwaith i gais o dan y drefn Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a 15 diwrnod i ohebiaeth arall.

Ein harfer gyffredin fydd cychwyn gohebiaeth yn Gymraeg â'r rheiny y gwyddys ei bod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg.

Lle bo gohebiaeth yn ymwneud ag ymchwiliad gan yr CC a/neu unrhyw weithrediadau apêl, gwneir y penderfyniad i gychwyn ac ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ôl disgrisiwn ein rheolwyr, gan gymryd i ystyriaeth y pwnc dan sylw a'r terfynau amser statudol a fynnir gan y proses ymchwilio.

Bydd yr un polisïau'n gymwys i ohebiaeth e-bost yn ogystal ag i fathau eraill o ohebiaeth ysgrifenedig.

Os oes raid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer gyffredin fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd.

Bydd eitemau a gaiff eu hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog eu hunain, lle bônt ar gael. Bydd eitemau a gaiff eu hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg eu hunain neu'n ddwyieithog, lle bônt ar gael.

## Cyfarfodydd cyhoeddus

Bydd y CC yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru yn cael cyfrannu yn Gymraeg a bod croeso iddynt wneud. Bydd gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiad yng Nghymru yn gwahodd y rhai sydd am siarad yn Gymraeg i roi gwybod am hynny i drefnydd y digwyddiad o leiaf bythefnos ymlaen llaw fel y gellir trefnu cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd.

## Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

Wrth ymgymryd ag arolwg o grŵp o fusnesau neu grŵp o ddefnyddwyr sy'n cynnwys nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg, byddwn yn gweinyddu'r arolwg yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Hysbysebu

Bydd unrhyw hysbysebion a roir mewn papurau newydd Saesneg a gaiff eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (a hynny yr un pryd ac yn gydradd o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd). Hysbysebion Cymraeg yn unig a gaiff eu rhoi mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

## Deunydd cyhoeddi ac argraffu wedi'i anelu at y cyhoedd yng Nghymru

Lle bo cyhoeddiad wedi'i anelu at y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru, trefnir iddo fod ar gael yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Lle bo'r deunydd o ddiddordeb i'r gymuned fusnes yng Nghymru, yn hytrach na'r cyhoedd yn gyffredinol, trefnir iddo fod ar gael yn Gymraeg yn gyfan gwbl, yn rhannol neu fel crynodeb, yn ôl

Daw hyn i rym wrth i'r cynllun gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Daw hyn i rym o fewn 2 fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oni bai ei fod eisoes ar y gweill yr adeg hon.

Daw hyn i rym o fewn 2 fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oni bai ei fod eisoes ar y gweill yr adeg hon.

Daw hyn i rym o fewn 2 fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oni bai ei fod eisoes ar y gweill yr adeg hon.

Daw hyn i rym o fewn 2 fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oni bai ei fod eisoes ar y gweill yr adeg hon.

disgresiwn ein rheolwyr, o gymryd i ystyriaeth gwmpas tebygol y diddordeb yn y deunydd neilltuol ac a yw fframwaith y deunydd ei hun yn ymgynnig i'w gynhyrchu naill ai'n rhannol yn Gymraeg neu fel crynodeb Cymraeg.

Lle bo'r deunydd wedi'i anelu at gynulleidfa gyfyngedig ac arbenigol yng Nghymru, byddwn yn ystyried yr angen am drefnu iddo fod ar gael o achos i achos, gan gymryd i ystyriaeth y pwnc a natur y gynulleidfa.

Lle trefnir i fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddeunydd cyhoeddedig fod ar gael ar wahân, bydd pob un yn dangos neges ar frig tudalen cynta'r ddogfen yn cadarnhau bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall. Bydd y ddau fersiwn yr un mor hygyrch i'r cyhoedd.

Lle codir tâl am gyhoeddiad, ni fydd pris y fersiwn Cymraeg yn fwy na phris y fersiwn Saesneg.

#### *Hysbysiadau i'r Wasg*

Lle mae'r terfynau amser yn caniatáu, trefnir i hysbysiadau i'r Wasg sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd Cymreig fod ar gael yn Gymraeg. Bydd hysbysiadau i'r Wasg a ddosberthir yn benodol ymhlith y Wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

#### *Gwefannau*

Bydd ein gwefannau'n cynnwys tudalennau yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

Byddwn yn paratoi rhaglen i'w chytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn gosod sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan ymhen amser.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu'n gwefannau presennol, byddwn yn cymryd i ystyriaeth ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghyswllt dylunwaith gwefannau.

#### *Ffurflenni a deunydd cysylltiedig*

Ein harfer gyffredin fydd sicrhau y bydd ffurflenni a deunydd cysylltiedig sydd at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Trefnir i ffurflenni a deunydd cysylltiedig i'w defnyddio gan gyrrff neu unigolion sy'n cymryd rhan yn ymchwiliadau'r CC a/neu unrhyw weithrediadau apêl fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn ôl disgresiwn ein rheolwyr, o gymryd i ystyriaeth y pwnc dan sylw a'r terfynau amser statudol a osodir gan y proses ymchwilio.

Bydd ffurflenni a deunydd cysylltiedig ar gyfer ymgeiswyr am swyddi yn ddwyieithog mewn perthynas â phob swydd lle caiff yr hysbyseb recriwtio ei rhoi mewn papurau newydd a ddosberthir yn bennaf neu'n llwyr yng Nghymru; neu lle mae cymwysterau angenrheidiol y swydd yn dweud bod rhuglder yn Gymraeg yn fedr sydd yn ddymunol neu'n hanfodol.

Bydd y darpariaethau uchod yn gymwys i'r ffurflenni rhyngweithiol a gaiff eu cyhoeddi ar ein gwefan, lle bo hynny'n briodol.

#### *Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a recriwtio staff*

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a roir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a gaiff eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gydradd o ran diwyg,

Daw hyn i rym o fewn 2 fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oni bai ei fod eisoes ar y gweill yr adeg hon.

Daw hyn i rym o fewn 12 mis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Daw hyn i rym o fewn 2 fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oni bai ei fod eisoes ar y gweill yr adeg hon.

Daw hyn i rym o fewn 2 fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oni bai ei fod eisoes ar y gweill yr adeg hon.

maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un ai y cânt eu cynhyrchu fel un fersiwn dwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Yn y cyfryngau Saesneg, gall swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol gael eu hysbysebu yn Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Gall hysbysiadau recriwtio a roir mewn cylchgronau Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) a gaiff eu dosbarthu ledled y DU fod yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol – os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog neu yn Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

*TGCh*

Cymerir i ystyriaeth yr angen am weithredu yn unol â'r cynllun hwn wrth inni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Daw hyn i rym o fewn 12 mis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

*Gwasanaethau a gaiff eu rhoi gan eraill i'r cyhoedd yng Nghymru*

Mae'r CC yn ymrwmo i sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a gaiff eu gwneud a trydydd partion gyda golwg ar roi gwasanaethau i'r cyhoedd Cymreig yn gyson ag amodau'r cynllun hwn. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu contractio allan.

Daw hyn i rym o fewn 2 fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oni bai ei fod eisoes ar y gweill yr adeg hon.

Lle bo hynny'n berthnasol, bydd y gofynion gyda golwg ar yr iaith Gymraeg yn rhan o'r dogfennau tendro a'r contractau, y cytundebau neu'r trefniadau canlyniadol sy'n codi. Os bydd gwasanaethau o'r fath yn cynnwys darparu canolfan ffonio neu linell gymorth, disgwylir i gynigwyr allu trin ymholiadau gan siaradwyr Cymraeg.

Cyfrifoldeb y rheolwr perthnasol fydd monitro gweithrediad materion yn dod o dan y Ddeddf yng nghyswllt y cynllun hwn gan gcontractwyr a phartion eraill.

*Monitro'r cynllun*

Gofynnir i staff restru pob cyswllt a wneir yn Gymraeg a rhoi gwybod am y rhain i Reolwr y Ganolfan Gwybodaeth.

Daw hyn i rym o fewn 2 fis i gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Gofynnir i staff roi gwybod i Reolwr y Ganolfan Gwybodaeth am bob cwyn yng nghyswllt y cynllun hwn neu am ddefnydd yr CC o'r iaith Gymraeg yn gyffredinol.

Bydd Rheolwr y Ganolfan Gwybodaeth yn llunio adroddiad cydymffurfio blynyddol i gynnwys:

- nifer yr enghreifftiau o gyfathrebu yn Gymraeg;
- ein cyraeddiadau yn ôl amserlen y tabl isod; ac
- unrhyw gwynion yng nghyswllt y cynllun neu awgrymiadau o ran gwella.

Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Prif Weithredwr i gael ei gymeradwyo. Byddwn yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am y cynnydd a wnaethom wrth wireddu'r cynllun hwn, pan ofynnant am un.

*Adolygu a diwygio'r cynllun*

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym. Gallwn hefyd adolygu neu ddiwygio'r cynllun hwn yn y cyfamser oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Daw hyn i rym wrth i'r cynllun gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.